Cofion a Llongyfarchion

Anfonwn ein cofion heddiw at Meurig Owen (Cefn Meiriadog) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, a hefyd at Ann Williams (Henllan) sydd bellach adref o'r ysbyty ar ôl cael llawdriniaeth. Parhawn i gofio hefyd am Merfyn Hughes (Llansannan) sy'n derbyn gofal yng Nghanolfan Walton. Dymunwn wellhad buan iawn i'r tri ohonynt ac i bawb arall sy'n mynd trwy wahanol driniaethau ar hyn o bryd. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan weddïo y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.

Llongyfarchiadau i Sara Roberts (Llansannan) ar ei dyweddïad â Sam Jones-Humphreys. Gweddïwn fendith Duw ar eu perthynas.

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Angharad Llwyd Roberts (Llansannan) ac Elis Gwyn fydd yn priodi yn ystod yr wythnosau nesaf hyn. Gweddïwn y byddant yn cael diwrnod cofiadwy ac y daw bendithion lu iddynt yn eu bywyd priodasol.

Diolch

Diolch o galon i bawb ohonoch ddaeth i'r oedfa i ffarwelio ac i ddiolch i Rhodri am ei wasanaeth canmoladwy i ni ar hyd y blynyddoedd ers pan iddo ddod i'r Ofalaeth yn 2009. Fe gofiwch mai myfyriwr DAWN Cymru oedd o ar y cychwyn, ac yna cafodd ei benodi yn Gynorthwy-ydd Gweinidogaethol yn 2011, cyn dod yn Weinidog yn 2016. Cawsom oedfa fendithiol nos Sul a chyfleon amrywiol i ddangos ein gwerthfawrogiad iddo ef a'r teulu. Diolch i bawb fu'n cymryd rhan yn yr oedfa ac yn arbennig i Aneurin am ei neges heriol; i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y dysteb i Rhodri, i Einir PG am y blodau hyfryd gyflwynwyd yn rhodd i Gwenno, i Dawn Wilks am y lluniau celfydd oedd ag adnod arnynt i Llio a Lleucu; i Marian E. Davies am y gacen flasus oedd wedi ei haddurno mor fedrus; i'r rhai fu'n gweini'r bwyd; i bawb o'r gwahanol eglwysi wnaeth gyfrannu at y lluniaeth a gafwyd yn dilyn yr oedfa; ac i Trefor Roberts am baratoi'r capel a'r festri ar ein cyfer.

Yn bennaf oll, diolchwn i Dduw am ei ddaioni yn rhoi Rhodri i ni am bron i 14 mlynedd. Dymunwn orau'r nef a bendith Duw arno ef a'r teulu ac ar y gweinidogaethau y byddan nhw ynglŷn â nhw o hyn allan.

Os oes unrhyw un ohonoch yn dymuno clywed yr oedfa, plîs cysylltwch gan nodi ai copi digidol dros y we neu CD fyddech chi'n hoffi ei gael. Diolch, Mair.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (17eg), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7 Mai 2023

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Cyfrifoldeb pwy?

Tydi pobl yn gyffredinol ddim yn hoff iawn o gymryd cyfrifoldeb am ryw bethau. Mae'n haws gweld bai ar rywun arall am beidio â chyflawni rhyw ddyletswydd. Ond y gwir ydi fod gan bawb gyfrifoldebau yn y byd hwn; cyfrifoldeb dros y byd a roddwyd yn ein gofal, cyfrifoldeb at ein gilydd fel pobl, cyfrifoldeb am y math o gymdeithas a gwlad yr ydym yn byw ynddi. Mae rhai cyfrifoldebau yn gyffredin i bob un ohonom fel bodau dynol ac mae cyfrifoldebau penodol yn cael eu rhoi i ni fel unigolion. Daw rhai yn rhinwedd ein swyddi drwy'r doniau a'r bendithion a roddwyd i ni, ond cuddio oddi wrth eu cyfrifoldeb a wnawn yn aml, fel y mae hanes Adda ac Efa yn ei ddysgu i ni. Bu iddynt anwybyddu gorchymyn Duw, a throi i feio ei gilydd am y canlyniadau, (gweler Genesis 3:1-13). Ymroi i wasanaethu wnaeth Iesu Grist pan ddaeth i'r byd. Darllenwn yn Luc 4 fel y cafodd ei demtio i gymryd y ffordd hawdd ond dewisodd lwybr gwasanaeth a gafael yn y cyfrifoldeb o fod yn waredwr i'r byd. Yna galwodd ar ei ddisgyblion i fod yn dystion iddo ac i'r gwaith achubol a gyflawnodd ar y groes, (gweler Luc 24:44-49). Wedi'r atgyfodiad, gwnaethant hynny gan gyhoeddi ffordd Iesu Grist, a hynny ar waethaf yr erledigaeth a ddaeth i'w rhan. Galwad oedd ar i bobl weld fod ail-ddechrau gyda Duw yn bosibl a'u hannog i ysgwyddo eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ei deyrnas. Cofiwn ei eiriau olaf i'w ddisgyblion cyn esgyn i'r nef, *"Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân. A dysgwch nhw i wneud popeth dw i wedi'i ddweud wrthoch chi. Gallwch chi fod yn siŵr y bydda i gyda chi bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod."* (Mathew 28:18-20)

Mae Duw yn galw ar bob un ohonom drwy'r byd i'w garu o a charu ein gilydd, a gweithio i sicrhau lles bob un o'r ddynolryw. Rhoddwyd cyfrifoldeb arnom i fod yn dystion i Iesu Grist. Ydym ni yn bobl sy'n gwneud gwahaniaeth er gwell yn yr eglwys neu yn y capel, yn ein bro a thros ein cyd-ddyn ledled y byd?

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mai 7fed

- **Bore Bro Aled yng Nghapel Henllan –** oedfa i holl eglwysi'r Ofalaeth **am 10:30** o dan arweiniad y Parch. John Robinson.

Dydd Mawrth, Mai 9fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Dewch i ddysgu sut i ysgrifennu erthyglau byrion diddorol!** Cwrs rhad ac am ddim yng Ngholeg y Bala o 10.00–13.00 i dderbyn arweiniad, rhannu profiadau a chyfarfod ag eraill sydd â diddordeb mewn ysgrifennu erthyglau byrion neu bwt o newyddion bachog. Cewch ddysgu sut i ysgrifennu am ddigwyddiadau lleol, yn arbennig y rhai sy'n digwydd yn ein capeli, ar gyfer newyddlen eich capel, cylchgrawn fel Cenn@d, eich papur bro ac ar gyfer gwefannau a chyfryngau cymdeithasol. Y tiwtor fydd John Roberts, Aberystwyth, cynhyrchydd ac awdur a chyflwynydd y rhaglen Bwrw Golwg ar BBC Radio Cymru. Trefnir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Dydd Sadwrn, Mai 13eg

- **Gwasanaeth Sefydlu Rhodri yn weinidog ar Gapel y Ffynnon, Bangor** yng Nghapel Ebenezer, St Paul's Terrace, Bangor (LL57 1LB) am 2:00. Croeso i bawb!

Dydd Sul, Mai 14eg

- **Oedfa yn Saron** am 10:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Llanfair** am 10:00.
- **Trefniant lleol yng Nghefn Meiriadog** am 10:30.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn Eglwys Sant Sannan, Llansannan** am 11:00. Os nad ydych eisoes wedi cael cyfle yn yr wythnosau diwethaf i gyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol, bydd amlenni ar gael yn yr Eglwys, yng Nghapel Coffa Henry Rees, ac yn y siop. Gofynnir yn garedig i chi gyfrannu cyn diwedd mis Mai, os gwelwch yn dda.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn** am 2:00.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llannefydd** am 2:00 yng nghwmni Mrs Cheryl Williams.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yng Nghapel Henllan** am 2:00. Bydd amlenni cyfrannu ar gael yn y capel ac yn cael eu dosbarthu o amgylch y pentref os bydd rhywun yn dymuno cyfrannu.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras (07778 511672).

Dydd Llun, Mai 15fed

- **Pwyllgor Bugeiliol** (i flaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, ynghyd â'r aelod sydd wedi ei ddewis i gynrychioli pob eglwys) yn Llansannan am 7:30.

Dydd Mawrth, Mai 16eg

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Sul, Mai 21ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00.
- **Oedfa Fedydd yn Llannefydd** am 10:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris pryd y bydd Manon a Will McNiece yn cyflwyno Huw Elwy i'w fedyddio.
- **Oedfa'r Fro yn Groes** am 6:00 gyda Celfyn Williams yn arwain a'r Parch. Meirion Morris yn pregethu.

Pwyllgor Bugeiliol

Dyma'r rhai sydd wedi eu hethol i gynrychioli aelodau'r eglwysi ar y Pwyllgor Bugeiliol hefo blaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, ynghyd â chynrychiolwyr o Henaduriaeth Dyffryn Clwyd a'r Cwrdd Chwarter:

- Cefn Berain: Lona Williams
- Cefn Meiriadog: Nesta W. Davies
- Eglwys Unedig Llansannan: Eifion M. Jones
- Groes: Meinir H. Jones
- Henllan: Haf Evans
- Hiraethog: Sheila Dafis
- Llanfair Talhaiarn: Oswen Davies
- Llannefydd: Eluned Roberts
- Nantglyn: Eleri Davies
- Saron: Marian Hughes

Bydd y Pwyllgor Bugeiliol yn cyfarfod **nos Lun, Mai 15fed** yn Llansannan am 7:30 yr hwyr. Ymddiheuriadau i'r ychydig rai ohonoch sydd ddim ar gael y noson honno ond wedi holi'r eglwysi, hwn yw'r dyddiad mwyaf cyfleus.